



15 Tachwedd 2017

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

### **Dogfennau rheoleiddio newydd a lansio ymgynghoriad cyhoeddus**

Rydym yn ysgrifennu atoch er mwyn eich gwneud yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar pwysig o ran ein dogfennau rheoleiddio, sef:

1. Cyhoeddi dau bolisi sy'n ymwneud â data
2. Ymgynghori ar gwynion am gyrff dyfarnu, chwythu'r chwiban a gorfodi

### **Llywodraethu ar gyfer ystadegau Cymwysterau Cymru**

Yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18, byddwn yn dechrau casglu data ar gymwysterau cyffredinol yr astudir ar eu cyfer yng Nghymru, fel rhan o'n rôl reoleiddio. Er mwyn llywio'r ffordd y byddwn yn casglu ac yn defnyddio'r data hyn, rydym wedi dewis cydymffurfio'n wirfoddol â chod ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU. Er mwyn cydymffurfio â'r cod ymarfer hwn, rydym wedi llunio dwy ddogfen reoleiddio newydd.

Mae ein Polisi Allbynnau Ystadegol yn disgrifio'r ffordd y byddwn yn cyhoeddi allbynnau ystadegol sy'n ymwneud â'r data rydym yn eu casglu ar gymwysterau rheoleiddiedig.

Mae ein Polisi Diwygiadau a Chywiriadau Interim ar gyfer Datganiadau Ystadegol yn disgrifio'r ffordd y gallwn ddiwygio ein datganiadau ystadegol rheolaidd. Mae "datganiadau ystadegol" yn cyfeirio at ddatganiadau ystadegol rheolaidd a gaiff eu cyhoeddi ar ein gwefan.



## Ymgynghori ar gwynion am gyrff dyfarnu, chwythu'r chwiban a gorfodi

Yn y ddogfen ymgynghori y byddwn yn ei chyhoeddi heddiw, rydym yn ceisio eich barn ar gyfres o bolisiau sy'n ymwneud â gorfodi, ymdrin â chwynion a chwythu'r chwiban. Cyflwynwn y polisiau hyn gyda'i gilydd er mwyn dangos yr amrywiaeth o gamau gweithredu a gweithgareddau casglu gwybodaeth y gallem eu defnyddio fel rhan o'n rôl reoleiddio.

Cyflwynna'r ymgynghoriad hwn bump o'n polisiau:

- Cwynion am gyrff dyfarnu
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith
- Polisi Capiio Ffioedd
- Polisi Cosbau Ariannol

Gellir dod o hyd i'r ddogfen ymgynghori sy'n cyflwyno'r polisiau hyn ar ein gwefan yn <http://qualificationswales.org/consultations/?lang=cy&>

Dylech ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 18:00 ar 6 Chwefror 2018 fan bellaf gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn <http://www.smartsurvey.co.uk/s/QWGorfodi/>

Yn ogystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn, croesewir adborth ar ein dogfennau rheoleiddio ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i [polisi@cymwysteraucymru.org](mailto:polisi@cymwysteraucymru.org).

Yn gywir

Kate Crabtree  
Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Polisi ac Ymchwil

Qualifications Wales  
Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)  
[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

Cymwysterau Cymru  
Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222